

Gaeaf 2022/2023



RHONDDA • CYNON • TAF

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Cynllun Gweithredol y Gwasanaeth Gaeaf



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE  
**RHONDDA CYNON TAF**  
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Gaeaf 2022/2023

## CYNNWYS

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>
<b>2</b>	<b>Amcanion</b>
<b>3</b>	<b>Gweithredu</b>
<b>4</b>	<b>Cyfnod Cynnal a Chadw y Gaeaf</b>
<b>5</b>	<b>Lefelau Gwasanaeth</b>
5.1	Rhagfynegi'r Tywydd ar y Ffyrdd
5.2	Gorsafoedd Tywydd ar y Ffyrdd/Synwryddion Iâ
5.3	Lefel Trefniadau Ymlaen Llaw
5.3.1	Graeanu Ymlaen Llaw
5.3.2	Trefnu Ymlaen Llaw ac Amseroedd Targed y Llwybrau
5.4	Ôl-drin
5.4.1	Ôl-drin iâ/rhew
5.4.2	Clirio Eira
5.4.3	Cerbyffyrdd
5.4.4	Troedffyrdd a Llwybrau Beicio
5.4.5	Biniau Halen
5.5	Camau Gweithredu pan ddaw Dadmer
<b>6</b>	<b>Swyddogaethau a Chyfrifoldebau</b>
6.1	Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd a Peirianeg
6.1.1	Staff Isadeiledd y Priffyrdd
6.1.2	Hysbysiadau am gamau gweithredu arfaethedig
6.2	Y Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd
6.2.1	Swyddog Wrth Gefn
6.3	Awdurdodau a Sefydliadau Eraill
6.3.1	Awdurdodau Priffyrdd Cyfagos
6.3.2	Gwasanaethau Brys
6.3.3	Awdurdodau/Cyrff Eraill
<b>7</b>	<b>Safleoedd neu Nodweddion Arbennig</b>
7.1	Croesfannau Rheilffordd
7.2	Safleoedd Gostegu Traffig
<b>8</b>	<b>Trefniadau Sefydliadol a Phersonél</b>
8.1	Amserlenni Dyletswydd, Rotâu a Threfniadau Wrth Gefn
8.2	Hyfforddiant a Datblygiad

<b>9</b>	<b>Cyfleusterau, Peiriannau, Cerbydau, Cyfarpar a Chanolfannau</b>
9.1	Cerbydau
9.2	Halen
9.2.1	Cyflenwi Halen i Eraill
<b>10</b>	<b>Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd</b>
10.1	Gwybodaeth i'r Cyhoedd
10.2	Y Wasg Leol a Gwybodaeth Ddarlledu
<b>11</b>	<b>Gweithdrefnau Gweithredol</b>
11.1	Cyffredinol
11.2	Graeanu Ymlaen Llaw
11.3	Ôl-drin
11.4	Pan ddaw Eira
11.4.1	Trin Eira
11.5	Trefnu Gwaith Argyfwng neu Frys
11.5.1	Llafur Ychwanegol
11.6	Cau Ffyrdd Mynydd
11.7	Cau Ffyrdd Eraill
11.8	Defnyddio Cyfarpar
11.8.1	Cyfarpar wedi'u Hurio
11.9	Strydoedd â Mesurau Gostegu Traffig
11.10	Monitro Gweithredol
11.11	Cadw a Chofnodi Cofnodion Gweithredol
<b>12</b>	<b>Priffyrdd sy'n cael eu Cynnal a'u Cadw'n Dda</b>

## **ATODIADAU**

- I Enghraifft o Adroddiadau Rhagfynegi'r Tywydd
- II COVID-19 Darpariaeth Cynnal a Chadw y Gaeaf

Mae'r atodiadau at ddibenion gweithredu'r cynllun yn unig. Mae gweddill yr atodiadau wedi eu tynnu o'r fersiwn allanol.

## **1 CYFLWYNIAD**

Mae'r ddogfen yma yn esbonio cyfrifoldebau a gweithdrefnau gweithredol y Cyngor mewn perthynas â rheoli a chynnal a chadw rhwydwaith priffyrdd Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ystod y gaeaf, gan gwmpasu gweithrediadau graeanu ymlaen llaw, gwytnwch y rhwydweithiau a chlirio iâ ac eira.

## **2. AMCANION**

O roi ystyriaeth i ddyraniad adnoddau a chyllid, amcan y Cyngor yw cynnal neu adfer y rhwydwaith priffyrdd cyn gynted ag y bo modd fel bod cerddwyr a cherbydau yn rhydd i ddefnyddio'r rhwydwaith priffyrdd yn ddiogel yn ystod cyfnod y gaeaf. Caiff y rhwydwaith ei flaenoriaethu yn unol â'r blaenoriaethau canlynol:

- Prif ffyrdd a ffyrdd strategol (manylion yn y rhwydwaith graeanu ymlaen llaw).
- Ffyrdd cysylltiol lleol a ffyrdd Dosbarth III eraill sy'n cysylltu pentrefi â'r uchod.
- Mynedfeydd i ffynonellau tanwydd a bwyd.
- Llwybrau bysiau.
- Llwybrau trwodd mewn ardaloedd adeiledig.
- Ffyrdd ar ystadau diwydiannol.
- Ffyrdd 'llwybrau tarw/cefn'.
- Lonydd i ffermydd diarffordd neu anghysbell.
- Unrhyw lwybrau eraill heb eu rhestru.

Er mwyn cyflawni'r amcanion yma, mae'r Cyngor wedi rhannu Cynllun Gweithredol y Gwasanaeth Gaeaf yn dri maes penodol. Dyma'r meysydd:

- a) Graeanu ymlaen llaw cyn i iâ ffurfio neu eira Gronni.
- b) Ôl-driniaeth wedi i iâ ffurfio neu eira Gronni.
- c) Darparu biniau halen mewn lleoliadau strategol ar hyd y rhwydwaith.

## **3. GWEITHREDU**

Mae'r Cynllun Gweithredol y Gwasanaeth Gaeaf yn darparu arweiniad i'r rheiny o staff a gweithlu'r Cyngor a allai fod yn cymryd rhan mewn unrhyw weithrediadau cynnal a chadw yn y gaeaf.

#### **4. CYFNOD CYNNAL A CHADW Y GAEAF**

Byddwn ni'n darparu'r gwasanaethau gaeaf penodol a ddisgrifir yn y cynllun yma yn ystod y cyfnod o 1 Hydref tan 30 Ebrill i gynnwys y misoedd hynny pan fydd ffurfio iâ neu gwmpau eira yn fwyaf tebygol. Os bydd iâ'n ffurfio neu eira'n cwmpo tu allan i'r cyfnod yma, byddwn ni'n ymateb yn adweithiol, yn unol â'r egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn y ddogfen yma.

#### **5. LEFELAU GWASANAETH**

Yn ystod oriau gwaith arferol pan fydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd a Thrafnidiaeth neu aelod dynodedig o'i garfan yn derbyn rhagolygon tywydd dyddiol yn ystod cyfnod y gaeaf, fe fydd yn penderfynu ar y camau gweithredu o ran y rhwydwaith priffyrdd. Tu allan i oriau gwaith arferol, bydd y penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Wrth Gefn.

##### **5.1 RHAGFYNEGIR TYWYDD AR Y FFYRDD**

Cwmni 'Metdesk' yw ein contractwr sy'n darparu'r rhagolygon tywydd. Fe fydd y contractwr yma'n darparu rhagolygon dyddiol o'r tywydd drwy e-bost. Yn ystod oriau gwaith arferol, y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd fydd yn monitro'r cyfrif yma, a'r Swyddog Wrth Gefn ar bob adeg arall. (Mae enghraifft o fformat y rhagolygon i'w gweld yn Atodiad I.) Mae Metdesk yn darparu rhagolygon tywydd ar ffurf neges destun deirgwaith y dydd am 0600, 1200 a 1800 er mwyn adlewyrchu datblygiadau parhaus yn y tywydd. Yn ystod oriau gwaith, cyfrifoldeb y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd (a'r Swyddog Wrth Gefn y tu allan i oriau gwaith) yw cysylltu â Metdesk os na ddaw'r rhagolygon tywydd i law.

Mae'r rhagolwg yn rhoi rhagfynegiad o dymereddau isafswm wyneb y ffyrdd ac o'r amgylchiadau ar y ffyrdd, gan gynnwys yr adegau y mae disgwyl i'r amgylchiadau yma ddigwydd.

Datganiad o'r cyflwr rhybudd yw'r mynegiad cyntaf o'r amgylchiadau tebygol. Dyma ddisgrifiad o'r cyflyrau rhybudd:

**GWYRDD** Dim peryglon ar wyneb y ffyrdd i'w disgwyl ac, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd tymheredd wyneb y ffyrdd yn uwch na +1°C. Mae'n bosib y bydd tymheredd wyneb y ffyrdd yn disgyn i sero, neu ychydig yn is, os bydd hi'n eithriadol o sych a'r lleithder yn isel.

**OREN** Mae disgwyl i dymheredd wyneb y ffyrdd fod yn agos at sero, gyda phosibilrwydd y bydd wyneb y ffyrdd yn llaith neu'n wlyb, neu y bydd eira

ysgafn yn cwmpo. Yn y rhan fwyaf helaeth o achosion, bydd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y tymheredd isaf, neu pa mor wlyb bydd y ffordd. Bydd hi'n ddoeth ac yn llesol fel arfer i gael rhagolwg o'r tywydd wedi'i ddiweddarau yn ystod y dydd cyn penderfynu ar gamau gweithredu.

COCH Mae disgwyl y bydd tymheredd wyneb y ffyrdd yn disgyn i sero neu'n is, a bydd peryglon ar ffyrdd sydd heb eu trin.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i'n darparwr rhagolygon tywydd am unrhyw gamau graeanu rydyn ni'n bwriadu eu gwneud. Mae'n ofynnol i'r darparwr roi gwybod i'r Cyngor os bydd y rhagolygon yn newid a bod y darparwr o'r farn y gallai'r Cyngor ddymuno ailystyried y camau graeanu y mae eisoes wedi penderfynu arnyn nhw.

## 5.2 Gorsafoedd Tywydd ar y Ffyrrdd/Synwryddion Iâ

Mae pedwar o safleoedd synwryddion tywydd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r safleoedd yma, ac eraill y tu mewn i ffiniau awdurdodau eraill, yn helpu darparwr y rhagolygon tywydd i bennu rhagolygon tywydd ac i'w monitro.

<u>Llwybr</u>	<u>Canolfan/Swyddfa</u>
	Cwm Clydach
A473	Tonysguboriau
B4275	Godreaman

Drwy gydol cyfnod y gaeaf, mae darparwr y rhagolygon tywydd yn cysylltu o bell â'r safleoedd synwryddion tywydd yma er mwyn pennu beth yw'r tywydd lleol. Dyma'r paramedrau sy'n cael eu mesur gan y system: tymheredd dwfn; tymheredd yr aer; lleithder; tymheredd wyneb y ffordd; crynodiad yr halen; a chyflwr wyneb y ffordd, a allai fod yn wlyb, yn sych neu'n rhewllyd. Bydd darparwr y rhagolygon tywydd yn dehongli'r data o'r synwryddion ac yn ailwerthuso'i ragolygon tywydd. Bydd yna'n rhoi gwybod i'r Cyngor os bydd o'r farn bod angen newid unrhyw gamau gweithredu.

### **5.3 LEFEL TREFNIADAU YMLAEN LLAW**

Byddwn ni'n cyflawni gwaith graeanu ymlaen llaw ar ddarnau diffiniedig o'r rhwydwaith priffyrdd. (Mae modd dod o hyd i Gynlluniau Llwybr, a Chardiau Llwybr sy'n rhoi manylion am ddilyniant y llwybrau graeanu, yn Atodiad V.) Mae hyn yn cael ei adnabod fel y Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw.

Cyflawni graeanu ymlaen llaw cyn yr amser sy'n cael ei ragfynegi ar gyfer cychwyn amgylchiadau ac amodau tywydd megis eira, rhew neu iâ yw'r nod. Serch hynny, rhaid nodi y bydd presenoldeb gweddillion halen o gamau gweithredu graeanu blaenorol weithiau yn golygu bod rhaid gohirio graeanu, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd gweithredol.

Rydyn ni wedi llunio'r Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw yn Rhondda Cynon Taf gyda sylw dyladwy i ddsbarth y gwahanol lwybrau, sut maen nhw'n cael eu defnyddio, ac i'r risg i'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd pob ffordd yn nosbarth A a B yn cael ei graeanu ochr yn ochr â ffyrdd eraill sydd wedi eu diffinio yn briffyrdd dosbarth 3b yn ôl Gweithdrefnau Archwilio Strydoedd y Cyngor. Bydd nifer fach o ffyrdd sydd wedi'u graeanu yn y gorffennol hefyd yn cael eu graeanu. Yn ogystal â hyn, pan fo'n briodol, bydd y Cyngor yn graeanu llwybr ychwanegol sy'n cynnwys y meysydd parcio pwysig, prif swyddfeydd y Cyngor, a mannau gollwng cludiant ysgolion uwchradd.

#### **5.3.1 GRAEANU YMLAEN LLAW**

Pan fydd swyddog dynodedig yn derbyn y rhagolygon tywydd, bydd yn penderfynu, yng ngoleuni gwybodaeth leol a phrofiad, ar ba gamau graeanu ymlaen llaw i'w cymryd. Bydd y penderfyniad yn cyfateb, yn gyffredinol, i un o'r mathau isod o wasanaethau tywydd gwael.

- Dim camau gweithredu.
- Pob criw yn bresennol yn ei ddepo, gan aros am gyfarwyddiadau.
- Diweddarau gwybodaeth/Patrolio – bydd y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd neu'r Swyddog Wrth Gefn yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â darparwr y rhagolygon tywydd, ac yn trefnu patrolio'r rhwydwaith yn ôl yr angen er mwyn darganfod beth yw'r amodau tywydd cyfredol.
- Graeanu ymlaen llaw, boed gydag erydr wedi'u gosod neu hebddyn nhw, fel sy'n cael ei ddisgrifio isod:-
  - Rhwydwaith cyfan – graeanu'r Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw cyfan, gan gynnwys y llwybr ychwanegol.
  - Llwybrau uchel – y darnau hynny o'r Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw lle mae ffyrdd yn uwch na 200 metr. Os bydd darnau penodol o lwybrau yn croesi'r ffin uchder enwol yma, byddwn ni'n sicrhau triniaeth barhaus i'r llwybr drwy drin hyd cyfan y darn penodol yma.



- Mannau tryddiferu – mewn nifer o fannau, mae dŵr yn tryddiferu i'r Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw o'r tir cyfagos, ond mae lleoliad y manau tryddiferu yma'n amrywio. Pan mae disgwyl bydd tymereddau'r ffyrdd yn disgyn o dan y rhewbwynt, ond does dim disgwyl y bydd lleithder yn bresennol yn rhywle arall ar y rhwydwaith, byddwn ni'n teithio ar hyd y llwybr cyfan a allai gael ei effeithio gan dymereddau o dan sero. Os bydd y gyrrwr yn amlygu unrhyw fannau gwlyb, bydd yn graeanu ar raddfa 30g/m<sup>2</sup>.
- Copaon mynyddoedd – y Rhigos, y Maerdy a'r Bwlch
- Mae Rhwydwaith Graeanu Difrifol hefyd wedi'i nodi. Fyddwn ni ddim yn rhoi'r Rhwydwaith yma ar waith nes daw argyfwng yn sgil prinder halen neu os bydd y tywydd yn gyffredinol yn arw neu'n ddifrifol. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys isafswm y cysylltiadau allweddol sydd eu hangen er mwyn cynnal teithio rhwng trefi a chadw'r gwasanaethau brys yn weithredol, cyflenwadau bwyd yn cyrraedd, ac ati. Os bydd angen lleihau lefel ein gwasanaethau fel hyn, yna fe fyddwn ni'n cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd sylweddol i roi gwybod i ddefnyddwyr y ffyrdd.

Mae'n bwysig nodi fydd graeanu ymlaen llaw ddim o reidrwydd yn atal eira rhag cronni ar y ffyrdd. O leiaf, bydd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd haen o iâ yn ymffurfio dan yr eira a bydd o gymorth mawr wrth glirio'r eira wedyn.

Bydd y penderfyniad yn cael ei gofnodi ar daflen weithredu y gwasanaeth gaeaf yn Atodiad II. Bydd hyn yn rhoi manylion ynglŷn â champau gweithredu, taenu'r halen, ac amseriad y camau gweithredu.

### **5.3.2 TREFNU YMLAEN LLAW AC AMSEROEDD TARGED Y LLWYBRAU**

Y nod yw paratoi a symud cerbydau graeanu ymlaen llaw i daenu'r halen o fewn awr o dderbyn cyfarwyddyd.

Mae'r camau gweithredu yn cael eu cynnal ar wahanol adegau o'r diwrnod, mewn gwahanol amgylchiadau traffig, ac ar wahanol raddfeydd taenu halen. Dyna pam y bydd amser cwblhau trin y Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw yn amrywio. Yn ystod cyfnodau o draffig tawel a llai prysur, tua 3½ awr yw amser y driniaeth, gan daenu halen ar raddfa 20g/m<sup>2</sup>. Os bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod cyfnodau o draffig brig, ar y llaw arall, neu gan daenu halen ar raddfa 30g/m<sup>2</sup>, mae modd i amser y driniaeth gymryd hyd at 5 awr. Byddwn ni'n graeanu 'rhag ofn' y bydd rhew neu iâ ar raddfa 20g/m<sup>2</sup>. Mae'n bosibl bydd angen taenu halen ar raddfa uwch, yn enwedig os yw'r tywydd yn arbennig o arw neu ddifrifol, neu os yw'n debygol y bydd glaw yn golchi halen oddi ar y ffordd. Yn yr amgylchiadau yma, byddwn ni'n graeanu ar raddfa 30g/m<sup>2</sup>.

Bydd angen graeanu ar raddfa 30g/m<sup>2</sup> cyn i eira gwympto er mwyn atal yr eira rhag setlo am gyhyd â phosibl a gwneud unrhyw aredig yn haws.

Mae'r Siart yn Atodiad XIII yn rhoi canllaw ynghylch y math o driniaeth sydd ei hangen ar gyfer gwahanol amgylchiadau a chyflyrau'r ffyrdd, a thymereddau'u hwyneb. Cofiwch taw cynllun cyffredinol yw hwn gan fod modd i farn broffesiynol amrywio'r camau gweithredu yn seiliedig ar amodau a nodweddion y lleoliad.

## 5.4 ÔL-DRIN

Fe wnawn ni bob ymdrech i gadw'r Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw yn rhydd o iâ ac eira. Serch hynny ni fydd modd atal eira rhag cronni mewn amgylchiadau penodol. Enghreifftiau o hyn fyddai eira trwm, neu eira yn dilyn glaw fydd yn ein rhwystro rhag gwneud y gwaith trin yn brydlon.

Ble bynnag y bo rhew, iâ, neu eira wedi datblygu neu Gronni ar y briffordd, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r manau a'r ardaloedd sydd wedi'u eu heffeithio ac yn eu trin yn ôl y camau sydd wedi'u hamlinellu.

### 5.4.1 ÔL-DRIN IÂ/RHEW

Byddwn ni'n blaenoriaethu gwaith ôl-drin iâ a/neu rew yn unol â'r canllawiau sydd yn y tabl isod; os yw iâ eisoes wedi ymfurfio, byddwn ni'n ei drin ar raddfa daenu halen o 40g/m<sup>2</sup>.

Eitem	Cyflwr yr wyneb	Triniaeth
1	Caennau iâ mewn manau penodol (dŵr yn gollwng ac ati)	Taenu halen â llaw neu â pheiriant, gan ddibynnu ar raddfa'r digwyddiad
2	iâ du neu lwydrew yn bresennol, mewn manau penodol neu mewn sawl man	Graeanu ar raddfa 40g/m <sup>2</sup>

### 5.4.2 CLIRIO EIRA

Yn aml iawn, dim ond lleoliadau daearyddol penodol sy'n cael eu heffeithio gan eira. Enghreifftiau o'r rhain fyddai'r llwybrau mwyaf uchel, neu luwchfeydd ar draws ffyrdd mewn mannau agored. Yn yr amgylchiadau yma, bydd angen i ni dargedu ein hymateb.

Yn gyffredinol, bydd ein blaenoriaethau wrth glirio eira yn dilyn ein blaenoriaethau graeanu ymlaen llaw, ond bydd y swyddog dynodedig yn rhoi ystyriaeth i eira yn dechrau lluwchio, damweiniau yn rhwystro ffyrdd, neu unrhyw amgylchiadau arbennig eraill na all neb ond y goruchwylydd eu gweld ar y pryd. Er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y modd mwyaf effeithlon, efallai y byddwn ni'n cau ffyrdd mynydd cyn iddi fwrw eira a thargedu mannau eraill ar y rhwydwaith.

### **5.4.3 CERBYTFFYRDD**

Os bydd yr iâ neu'r eira yn parhau, cliriwn ni'r ffyrdd Dosbarth A a Dosbarth B yn gyntaf. Awn ni ymlaen wedyn i glirio gweddill y Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw.

Byddwn ni'n trin cerbyttffyrdd a throedffyrdd eraill wrth i adnoddau ddod i law, gan ystyried pa mor debygol mae'r tywydd yn mynd i barhau.

Ar wahân i'r amodau sydd wedi eu nodi uchod, dylai'r drefn flaenoriaeth gyffredinol fod fel a ganlyn:

- Llwybrau strategol a ffyrdd dosbarthu sy'n cludo traffig diwydiannol, a mynediad i ysbytai, gorsafoedd tân a chanolfannau brys;
- Ffyrdd cysylltiol lleol a ffyrdd Dosbarth III eraill sy'n cysylltu pentrefi â'r uchod;
- Mynedfeydd i ffynonellau tanwydd a bwyd;
- Llwybrau bysiau;
- Ffyrdd ar ystadau diwydiannol;
- Llwybrau trwodd mewn ardaloedd adeiledig;
- Ffyrdd 'llwybrau tarw/cefn';
- Lonydd i ffermydd diarffordd neu anghysbell;
- Unrhyw lwybrau eraill heb eu rhestru.

Er bod bwriad i gadw pob priffordd ar agor i draffig bob amser, fe allai fod yn angenrheidiol i asesu a yw'r adnoddau wedi'u hanfon i'w defnyddio yn cyflawni'u nodau. Fe allai fod yn angenrheidiol, yn y tywydd mwyaf garw, i roi'r gorau i'r camau gweithredu a thynnu'r adnoddau nes i'r tywydd wella. Bydd hi'n hanfodol bwysig i gysylltu ag awdurdodau priffyrdd cyfagos wrth ystyried rhoi'r gorau i'r gweithredu.

Pan ddaw ceisiadau i law o aelodau'r cyhoedd yn gofyn am glirio eira ac iâ, bydd y swyddog dynodedig yn eu blaenoriaethu yn unol â'r drefn uchod, gan ystyried pa adnoddau

sydd ar gael ymhle, rhagolygon y tywydd, ac unrhyw amgylchiadau arbennig megis a oes angen i'r gwasanaethau brys gyrraedd safle arbennig.

#### **5.4.4 TROEDFFYRDD A LLWYBRAU BEICIO**

Fyddwn ni ddim yn taenu halen ar droedffyrdd/llwybrau beicio ymlaen llaw. Serch hynny, os oes eira neu iâ cyson yn effeithio ar droedffyrdd, byddwn ni'n ystyried yr amodau, y rhagolygon a'r adnoddau sydd ar gael, ac yn mynd ati i glirio troedffyrdd a llwybrau beicio yn ôl y blaenoriaethau canlynol:

- Ardaloedd i gerddwyr a chanol ein prif drefi;
- Ardaloedd siopa pwysig eraill;
- Prif lwybrau i gerddwyr, gan gynnwys llwybrau i ysgolion, mynedfeydd i ysbytai, troedffyrdd yn agos at dai gwarchod a chartrefi preswyl, ffyrdd cyswllt â phrif lwybrau bysiau trefol, pontydd troed ar y prif lwybrau;
- Mynediad i adeiladau cyhoeddus eraill, meddygfeydd, clinigau, mynwentydd ac ati;
- Darnau serth o droedffyrdd, tanffyrdd mannau preswyl a'r grisiau cysylltiedig;
- Llwybrau prysur eraill i gerddwyr;
- Ardaloedd preswyl eraill;
- Ystadau diwydiannol;
- Troedffyrdd gwledig, llwybrau troed ag wyneb caled, a llwybrau beiciau oddi ar y ffordd, sy'n isel eu defnydd;

Fyddwn ni ddim yn trin llwybrau troed heb wyneb caled, hawliau tramwy cyhoeddus, a throedffyrdd preifat.

A chymryd i ystyriaeth yr adnoddau sydd ar gael, mae'n debygol fyddwn ni ddim yn trin y troedffyrdd yn y categorïau isaf os na fydd y tywydd yn eithriadol o arw.

### **5.4.5 BINIAU HALEN**

Byddwn ni'n cynnal rhwydwaith o finiau halen lleol er mwyn i bobl helpu'u hunain. Byddwn ni'n llenwi biniau halen ar ddechrau cyfnod y gaeaf, ac yn dilyn cyfnodau hir o gamau gweithredu. Fyddwn ni ddim yn defnyddio pentyrrau agored o halen, am resymau amgylcheddol.

Byddwn ni'n monitro lefel yr halen yn y biniau drwy gydol cyfnod y gaeaf, ac yn ail-lenwi'r biniau halen yn ôl yr angen.

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd yn cadw rhestr o safleoedd biniau halen. Mae croeso i chi gysylltu â'r Rheolwr i weld y rhestr.

Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd yn asesu'r ceisiadau am finiau halen ychwanegol yn flynyddol yn ôl system bwyntiau. Bydd biniau ychwanegol yn cael eu cyflwyno os ydy adnoddau yn caniatáu (gweler Atodiad XII).

### **5.4.6 CAMAU GWEITHREDU PAN DDAW DADMER**

I atal llifogydd, dylid agor gylïau ffordd ac allfeydd dŵr er mwyn gadael i ddŵr lifo yn rhydd. Rhaid archwilio'r prif gylfatiau a cheuffosydd i gyd i sicrhau'u bod yn gweithredu. Dylai biniau halen gael eu hail-lenwi cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## **6.0 SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU**

Staff a gweithlu'r Cyngor ei hun fydd yn cyflawni'r holl gamau gweithredu'r Gwasanaeth Gaeaf. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng-flaen yn gyfrifol am bob agwedd ar y Gwasanaeth Gaeaf ac wedi dyrannu rolau a chyfrifoldebau i:

### **6.1 CYFARWYDDWR GWASANAETH Y PRIFFYRDD A PEIRIANNEG**

Pennaeth Gwasanaeth y Priffyrdd a Peirianeg, gyda chymorth y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd ynghyd â charfan Isadeiledd y Priffyrdd, fydd yn ymdrin â'r Gwasanaeth Gaeaf o ddydd i ddydd, gyda chyfrifoldeb dros y canlynol:

- Gwasanaethau rhagolygon tywydd ymlaen llaw.
- Derbyn rhagolygon tywydd bob dydd yn ystod cyfnod y gaeaf, a phenderfynu pa gamau i'w cymryd ymlaen llaw. Yn ystod oriau gwaith arferol, y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yma. Tu allan i'r oriau gwaith arferol, mae'r cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Wrth Gefn.

- Cysylltu yn ôl yr angen â'r darparwr rhagolygon tywydd.
- Monitro gwybodaeth rhagfynegi iâ sy'n dod i law o'r darparwr rhagolygon tywydd.
- Cysylltu â'r gwahanol wasanaethau brys, cynghorau cyfagos ac ati os bydd y tywydd yn gwaethygu, yn enwedig os oes eira difrifol, neu eira sy'n lluwchio yn peri rhwystr sylweddol ar y rhwydwaith prif lwybrau.
- Cysylltu ag awdurdodau priffyrdd cyfagos ynglŷn â chau ffyrdd mynydd yn barod ar gyfer eira trwm.
- Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys.
- Rhoi gwybodaeth ffeithiol am amodau'r ffyrdd i Swyddogion y Wasg y Cyngor, y cyfryngau lleol, neu'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ôl y gofyn.
- Darparu gwybodaeth gywir a phrydlon i Ganolfan Alwadau'r Cyngor.
- Monitro lefelau stociau halen, a'u hail-lenwi yn ôl yr angen.
- Diffinio'r Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw.
- Diffinio lleoliadau biniau halen.
- Cynnal a chadw'r synwryddion iâ.
- Cadw cofnodion o'r rhagolygon tywydd a'r camau gweithredu.

### **6.1.1 STAFF ISADEILEDD Y PRIFFYRDD**

Mae'r holl staff Isadeiledd y Priffyrdd sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ynghylch gweithrediadau'r Gwasanaeth Gaeaf wedi cael hyfforddiant a phrofiad addas (gweler Atodiad VI).

### **6.1.2 HYSBYSIADAU O GAMAU GWEITHREDU ARFAETHEDIG**

Bydd rhybuddion parthed camau gweithredu'r Gwasanaeth Gaeaf, gan gynnwys penderfyniadau 'dim camau gweithredu', yn glir ac yn gryno ac yn dilyn y ffurf yn Atodiad III. Byddan nhw'n cael eu trosglwyddo drwy e-bost cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'r gwahanol gyrrff eraill, yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi yn Atodiad II.

## **6.2 Y RHEOLWR MATERION ADEILADU PRIFFYRDD**

Mae Pennaeth Gofal y Strydoedd, gyda chymorth ei dimau yn nepo Dinas a depo Abercynon (fel sydd wedi'i ddiffinio yn Atodiad VII) yn gyfrifol am:

- Derbynn rhagolygon tywydd a gweithredu'r cyfarwyddiadau gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd a Thrafnidiaeth neu gan ei staff dynodedig;
- Trefnu i gerbydau a chyfarpar fod ar gael drwy gydol cyfnod y gaeaf;
- Cyfarwyddo'r holl adnoddau ar gyfer graeanu a chlirio eira;

- Monitro amodau cyfredol y ffyrdd;
- Trefnu i'r gwaith gael ei gyflawni, monitro'r triniaethau a gwella cyfarwyddiadau yn ôl yr angen oherwydd newidiadau yn amodau'r ffyrdd neu'r math o dywydd;
- Asesu'r angen i raeanu ar gyfer ôl-drin eira ac iâ, neu glirio eira, a sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn ôl yr angen;
- Asesu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithrediadau clirio eira, a dyrannu a rheoli'r adnoddau sydd ar gael yn unol â hynny;
- Blaenoriaethu triniaethau sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw a rhai adweithiol yn ystod cyfnodau hir o dywydd gaeafol;
- Cadw rhestr o gontractwyr sydd â pheiriannau sy'n addas ar gyfer clirio eira, a hurio'r peiriannau hynny yn ôl yr angen;
- Cadw cofnodion cynhwysfawr o holl weithgareddau'r Gwasanaeth Gaeaf;
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn y ffordd fwyaf economaidd, effeithlon ac effeithiol;
- Cynnal a chadw'r stociau halen, a chymryd camau rhesymol i sicrhau cyn lleied o ddifrod â phosibl i strwythurau, llystyfiant ac ati wrth storio a llwytho'r halen;
- Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i ffitiwr cerbydau fod ar gael ar alwad 24 awr y dydd rhag ofn bod peiriannau yn torri;
- Sicrhau bod cyfarpar taenu halen yn cael eu harchwilio a'u calibro;
- Sicrhau bod pob un o'r gweithwyr yn derbyn hyfforddiant digonol a phriodol mewn gweithgareddau'r Gwasanaeth Gaeaf, a bod "cardiau llwybr" yn cael eu dosbarthu i'r gyrwyr;
- Sicrhau bod pob un o'r gweithwyr yn llenwi'r ffurflen adroddiad shifft ar ôl iddyn nhw gwblhau'u dyletswyddau.
- Cynnal a chadw'r biniau halen, a'u llenwi.

### **6.2.1 SWYDDOG WRTH GEFN**

Mae Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd yn darparu gwasanaeth wrth gefn er mwyn rheoli'r materion sy'n codi mewn perthynas â'r rhwydwaith priffyrdd y tu allan i oriau swyddfa arferol. Bydd y gwasanaeth yma yn cynnwys Swyddog Wrth Gefn gyda chymorth dau Swyddog Galw Allan, dau Oruchwyliwr Gweithlu, a charfan o weithwyr.

Y Swyddog Wrth Gefn sy'n gyfrifol am gydlynu holl weithgareddau'r Gwasanaeth Gaeaf y tu allan i oriau gwaith arferol. Bydd y swyddog yn cysylltu â staff o'r adran Isadeiledd y Priffyrdd neu staff Gofal y Strydoedd fel y bo angen.

### **6.3 AWDURDODAU A SEFYDLIADAU ERAILL**

Staff Isadeiledd y Priffyrdd fydd yn ymgymryd â gwaith cysylltu ag awdurdodau a sefydliadau eraill (gweler Atodiad VIII) yn ystod oriau gwaith arferol. Y Swyddog Wrth Gefn fydd yn gwneud y gwaith yma y tu allan i oriau gwaith arferol.

### **6.3.1 AWDURDODAU PRIFFYRDD CYFAGOS**

Dyma'r awdurdodau priffyrdd sydd yn rhannu ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Cyngor Sir Powys

Er mwyn cadw'r llwybrau yma'n effeithlon, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn trin y darnau canlynol o ffordd ar ran awdurdodau cyfagos:

- Llwybr A473 o'r ffin sirol hyd at gylchfan Penprysg a Heol Brynna o gylchfan Penprysg hyd at y ffin sirol. (Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.)
- Llwybr A4054 o'r ffin sirol hyd at gylchfan Fiddlers Elbow; a Llwybr A472 o gylchfan Fiddlers Elbow hyd at y ffin sirol (tua'r dwyrain a thua'r gorllewin). (Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.)
- Llwybr A4119 o'r ffin sirol hyd at Gylchfan Cyffordd 34 o'r M4. (Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.)
- Llwybr C239 tua'r gogledd-orllewin o'r ffin sirol tua 700 metr i'r gilfan. (Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.)

Bydd awdurdod cyfagos yn trin y darnau canlynol o ffordd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

- Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn trin Heol Felindre, Pen-coed rhwng ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morgannwg.



### **6.3.2 GWASANAETHAU BRYD**

Dyma'r gwasanaethau brys sy'n gweithredu yn Rhondda Cynon Taf (i'w canfod yn Atodiad IX):

- Heddlu De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf
- Gwasanaeth Gwaed Cymru

### **6.3.3 AWDURDODAU/CYRFF ERAILL**

Yn ogystal â'r uchod, mae manylion cyswllt y cyrff canlynol i'w cael yn Atodiad X.

- Network Rail / Trafnidiaeth Cymru
- MetDesk
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- ERH Communications
- Llywodraeth Cymru

## **7.0 SAFLEOEDD NEU NODWEDDION ARBENNIG**

### **7.1 CROESFANNAU RHEILFFORDD**

Mae gan rai croesfannau rheilffordd gyfarpar signalu a allai fethu o daenu hydoddiannau sy'n cynnwys lefel uchel o halen arnyn nhw. Dyna pam mae rhaid peidio â thaenu halen ar groesfannau rheilffordd.

Does dim croesfannau rheilffordd gweithredol ar y Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw.

Mae rhestr lawn o groesfannau rheilffordd i'w cael yn Atodiad XI.

### **7.2 SAFLEOEDD GOSTEGU TRAFFIG**

Mae'n bosibl na fydd nodweddion gostegu traffig megis twmpathau neu rwystrau ymwithiol i'w gweld yn amlwg yn yr eira. Os bydd peiriannau cynnal a chadw yn y gaeaf, neu'r gweithwyr, yn gwrthdaro â nhw fe allen nhw gael eu difrodi/anafu. Bydd y gweithwyr yn effro i'r peryglon yma ac i unrhyw rwystrau eraill ar hyd y ffyrdd.

## **8 TREFNIADAU SEFYDLIADOL A PHERSONÉL**

### **8.1 AMSERLENNI DYLETSSWYDD, ROTÂU A THREFNIADAU WRTH GEFN**

Bydd Swyddog Wrth Gefn ar alwad bob amser y tu allan i oriau gwaith arferol, gyda chymorth dau Swyddog Galw Allan. Byddwn ni'n rhoi ffôn symudol i'r Swyddog Wrth Gefn (mae'r rhif i'w weld yn Atodiad VII) a gliniadur sydd â mynediad i'r rhyngwyd ac i e-bost. Mae'r Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd yn goruchwyllo rotâu y Swyddog Wrth Gefn a'r Swyddog Galw Allan.

Mae rotas staff gweithrediadau'r gaeaf yn cael eu rheoli gan y Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd.

Dyma'r staff gweithredol fydd yn barod wrth law:

- 2 oruchwyllydd
- 10 gyrrwr cerbyd graeanu
- 4 cynorthwy-ydd
- 2 weithredwr blaenllwythwr

Yn ychwanegol at y gweithwyr yma, mae staff galw allan gydol y flwyddyn ar gael i gyflawni dyletswyddau'r gaeaf yn ôl y galw.

### **8.2 HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD**

Mae holl staff gweithrediadau cynnal a chadw y gaeaf yn bersonél â hyfforddiant a chymwysterau addas. Mae pob gyrrwr wedi ennill cymhwyster Gweithrediadau'r Gwasanaeth Gaeaf (6159) gan City & Guilds.

## **9 CYFLEUSTERAU, PEIRIANNAU, CERBYDAU, CYFARPAR A CHANOLFANNAU**

Bydd gweithrediadau'r Gwasanaeth Gaeaf yn gweithio o ddepo Abercynon a depo Dinas, lle mae darpariaeth ddigonol o gyfleusterau lles a chyfathrebu.

### **9.1 CERBYDAU**

Mae rhestr o holl beiriannau'r gwasanaeth gaeaf, eu maint, a'r depo lle maen nhw'n cael eu cadw i'w gweld yn Atodiad XIV.

Yn ogystal â pheiriannau'r gwasanaeth gaeaf, bydd modd sicrhau bod yr holl beiriannau eraill sydd ar gael i'r Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd hefyd ar gael i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau'r gwasanaeth gaeaf yn ôl yr angen.

Carfan Cerbydau'r Gwasanaeth Gofal y Strydoedd sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw'r cerbydau o ddydd i ddydd. Y cwmni Econ Engineering Ltd sy'n gwneud gwaith gwasanaethu, calibro, a chynnal a chadw sylweddol, ar y cerbydau graeanu (y Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd sy'n dal y tystysgrifau calibro).

## 9.2 HALEN

Byddwn ni'n defnyddio halen craig wedi'i falu i 10mm, sy'n cydymffurfio â BS3247, yn ein holl weithrediadau graeanu.

Mae stociau o halen dadrewi ar gyfer taenu â pheiriant yn cael eu cadw yn y ddau ddepo yn Abercynon a Dinas. Mae stociau ychwanegol o halen yn cael eu cadw yng nghanolfan Pontcynon mewn pentyrrau wedi'u gorchuddio â chynfasau ac mewn ysgubor halen. Bydd yr halen yn cael ei gludo i'r ddau ddepo gweithrediadol yn Abercynon a Dinas yn ôl yr angen yn ystod tymor y gaeaf. Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd yn monitro'r stociau ychwanegol er mwyn sicrhau bod y stoc yn cylchdroi. Os oes angen, mae modd i'r stociau gael eu defnyddio ar gyfer ail-lenwi'r depos yn ystod yr haf.

Mae'r holl halen yn nepo Dinas a depo Abercynon yn cael ei storio yn yr awyr agored ond o dan gynfasau i atal dŵr. Rydyn ni'n prynu halen yn ystod yr haf i fanteisio ar brisiau is.

Dyma swp y stoc cyn y gaeaf:

- Depo Dinas 1,000 tonnall fetrig
- Abercynon 3,500 tonnall fetrig
- Pontcynon 10,000 tonnall fetrig

Hefyd, mae gan y Cyngor gyflenwad strategol wrth gefn o 1,000 tonnall fetrig yn yr ysgubor halen ranbarthol ym Mlaenau Gwent.

Y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd sy'n gyfrifol am brynu halen craig yn ystod cyfnod y gaeaf ac am fonitro lefelau'r stociau. Mae rhestr o gyflenwyr halen i'w gweld yn Atodiad XV.

### 9.2.1 CYFLENWI HALEN I ERAILL

Mae halen a biniau halen yn cael eu cyflenwi i adrannau eraill y Cyngor ac i nifer benodol o gwmnïau partner (megis darparwyr cludiant i'r ysgol) ar sail ad hoc. Mae modd codi tâl am y ddarpariaeth yma. Ac eithrio'r enghreifftiau uchod, dydyn ni ddim fel arfer yn cyflenwi halen i gyrff neu unigolion y tu allan i'r Cyngor. Serch hynny, os bydd sefyllfa o argyfwng neu frys

yn codi fe wnawn ni bob ymdrech i fodloni ceisiadau am halen o'r gwasanaethau brys, ysbytai ac ati.

## **10 GWYBODAETH A CHYHOEDDUSRWYDD**

### **10.1 GWYBODAETH I'R CYHOEDD**

Bydd copïau o'r ddogfen yma ar gael ar-lein, ac i'r sawl sy'n gofyn am un. Byddwn ni'n gadael yr holl atodiadau, ac eithrio llwybrau graeanu, allan o'r fersiynau ar gyfer y cyhoedd. At ddefnydd gweithredol mewnol yn unig mae'r manylion cyswllt sydd ynddyn nhw.

Byddwn ni'n dosbarthu'r ddogfen yma i'r sefydliadau allanol sydd ar y rhestr yn Atodiad XIX.

### **10.2 Y WASG LEOL A GWYBODAETH DDARLLEDU**

Os bydd eira mawr yn syrthio neu iâ sylweddol yn ffurfio, bydd Swyddog y Wasg y Cyngor yn cael gwybodaeth yn ôl yr angen er mwyn rhaeadru newyddion diweddaraf i'r cyfryngau lleol am y tywydd, unrhyw fanylion am broblemau penodol ac arweiniad i'r cyhoedd.

## **11 GWEITHDREFNAU GWEITHREDOL**

### **11.1 CYFFREDINOL**

Rhaid ymgymryd â gweithrediadau cynnal a chadw yn y gaeaf mewn ffordd realistig ac ymarferol, gyda sylw priodol a dyledus i'r gofynion sylfaenol.

**Cadw** Rhaid rhoi cyfarwyddiadau cryno ar bob lefel.

**Pethau'n**

**Syml**

**Y Gweithlu** Gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi yn unig sydd â'r hawl i gymryd rhan mewn gweithrediadau cynnal a chadw rheolaidd y gaeaf. Rhaid i weithwyr dderbyn hyfforddiant cyn i gyfnod y gaeaf ddechrau, a bod yn gyfarwydd â'r llwybrau y bydd gofyn iddyn nhw eu trin.

**Peiriannau** Dylai digon o gyfarpar rheng-flaen, ac ail reng, fod ar gael i fodloni gofynion gweithredu. Rhaid gwasanaethau'r peiriannau yn llwyr, a'u calibro, cyn i dymor y gaeaf ddechrau.

**Deunyddiau** Rhaid i'r stociau mwyaf posibl o halen dadrewi fod ar gael yn nepo Abercynon a depo Dinas, ac yng nghanolfan Pontcynon, erbyn dechrau'r gaeaf.

## **11.2 GRAEANU YMLAEN LLAW**

Ystyr 'graeanu ymlaen llaw' yw taenu halen ar y Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw cyn dechrau'r tywydd rhewllyd, er mwyn gostwng rhewbwynt dŵr.

Bydd gyrwyr yn graeanu pob llwybr yn unol â'r cardiau llwybr, os na fydd rhwystrau, damweiniau neu amgylchiadau lleol eraill yn atal hyn. Bydd modd monitro, drwy system GPS, bod y llwybrau sydd ar y cardiau llwybr yn cael eu dilyn. Os ydy'r gyrrwr wedi amrywio'r llwybr sydd ar ei garden llwybr, rhaid iddo adrodd hynny wrth y goruchwylwyr, ac i hynny gael ei gofnodi.

Bydd y cerbydau graeanu yn teithio ar gyflymder sy'n cael ei argymhell gan wneuthurwyr y cyfarpar taenu, lle bo hynny'n bosib, a bydd y gyrwyr yn cadw at y terfyn cyflymder ar bob adeg ynghyd ag ystyried yr amodau ar y pryd.

Gan roi ystyriaeth i led y ffordd ac a oes cerbydau wedi parcio yno, bydd y gyrwyr yn addasu lled y taenu. Mae dyfais olrhain ym mhob un o'r cerbydau rheng-flaen, sy'n gallu cofnodi'r lleoliad a rheoli'r peiriannau sy'n penderfynu cyflymder y cerbyd, y lled taenu ac ati.

Ar ddiwedd pob cam gweithredu graeanu, rhaid i'r gweithredwr adrodd yn ôl trwy lenwi ffurflen. Rhaid i'r goruchwylwr ar ddyletswydd ardystio bod y ffurflen yn gywir, a'i dychwelyd i'r Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd y diwrnod gwaith nesaf.

Os bydd y tywydd yn gwaethygu yn ystod gweithrediadau graeanu ymlaen llaw, ac eira neu law yn dechrau cwmpo a chronni, rhaid i'r gyrwyr adrodd hyn i'r Goruchwylwyr. Bydd y Goruchwylwyr yn cysylltu â'r Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd neu â'r Swyddog Wrth Gefn. Bydd y rheiny yn ystyried unrhyw newid i lefel y camau gweithredu, ac yn cyfarwyddo'r gyrwyr fel y bo'n briodol.

## **11.3 ÔL-DRIN**

Byddwn ni'n cofnodi ceisiadau am driniaeth adweithiol i briffyrdd sy'n cael eu heffeithio gan dywydd garw neu ddifrifol, ac yn archwilio'r safleoedd er mwyn penderfynu dilysrwydd y ceisiadau a'u blaenoriaethu yn gywir. Fyddwn ni ddim yn trin ffyrdd ar gais, ac eithrio mewn argyfwng, nes bod modd rhyddhau adnoddau o waith trin y Rhwydwaith Graeanu Ymlaen Llaw.

## **11.4 PAN DDAW EIRA**

Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd fydd yn rheoli'r gwasanaeth gaeaf yn ystod cyfnodau o dywydd garw neu ddifrifol. Ond, os bydd y tywydd yn parhau yn eithafol am gyfnod estynedig, bydd Swyddog Cynllunio ar gyfer Argyfyngau y Cyngor yn rhoi cyngor priodol, a chaiff rhannau perthnasol o Gynllun Argyfwng y Cyngor eu gweithredu os bydd angen.

### **11.4.1 TRIN EIRA**

Byddwn ni'n cychwyn aredig cyn gynted ag y bydd dyfnder yr eira yn 30mm i 40mm. Bob tro y bydd yr aradr yn rhedeg, bydd hi'n bosib i ni hefyd daenu halen ar raddfa 10g/m<sup>2</sup>. Bydd hyn yn atal yr eira rhag cywasgu, ac yn caniatáu i'r aradr redeg yn rhwyddach y tro nesaf. Un o fanteision aredig yr eira a'i daenu'n ysgafn â halen wedyn yw na fydd angen ail-lwytho cymaint ar y cerbydau. Os bydd y tymheredd yn disgyn wrth aredig yr eira, mae'n bwysig monitro tymheredd yr aer er mwyn cynyddu'r taeniad i 40g/m<sup>2</sup> os bydd angen. Ddylai ddim bod rhaid i ni daenu ar raddfa uwch na 40g/m<sup>2</sup>, hyd yn oed yn y tywydd gwaethaf.

Os bydd yr eira'n rhy ddwfn i'r erydr eira, bydd rhaid clirio'r eira drwy ddefnyddio chwythwyr eira, teirw dur, blaenllwythwyr, lorïau codi ac ati, i symud y rhwystr mewn swmp.

## **11.5 TREFNU GWAITH ARGYFWNG NEU FRYS**

Byddwn ni'n cadw cofnodion manwl o gyfarwyddiadau, adroddiadau goruchwylwyr, gyrwyr, yr Heddlu, a'r cyhoedd ac ati, ac o geisiadau am gymorth.

Rhaid i'r staff roi adroddiadau yn rheolaidd o ba mor arw neu ddifrifol yw'r tywydd i'r Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd, i'r Swyddog Wrth Gefn, neu i'r goruchwylwyr, fel bo'n briodol. Efallai bydd angen i ni agor depos, a galw staff ychwanegol i mewn.

Bydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Rheng-flaen yn sefydlu Grŵp Brys y Gwasanaeth Gaeaf os bydd yr argyfwng yn debygol o barhau am fwy na phum niwrnod, neu os cawn ni gais gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd a Thrafnidiaeth. Bydd y Grŵp yn cynnwys swyddogion Gofal y Strydoedd, Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd, Caffael, Cyllid, Cynllunio ar gyfer Argyfwng, a Swyddfa'r Wasg, er mwyn penderfynu ymateb y Cyngor i'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu.

### **11.5.1 LLAFUR YCHWANEGOL**

Os bydd angen adnoddau llafur ychwanegol, bydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn cysylltu â'r Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd i geisio am gymorth gan adrannau eraill.

## **11.6 CAU FFYRDD MYNYDD**

Os daw rhagolygon i law am eira trwm neu eira sy'n lluwchio, caiff Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd a Thrafnidiaeth wneud penderfyniad i gau un neu ragor o ffyrdd mynydd y Bwlch, y Rhigos neu'r Maerdy ymhell cyn iddi ddechrau bwrw eira. Bydd yna'n hysbysu'r Rheolwr Traffic am ei benderfyniad. Byddwn ni'n cyhoeddi gorchymyn cau brys sy'n nodi dyddiad ac amser cau'r ffordd.

Fyddwn ni ddim yn gweithredu camau cau ffordd A4061 y Bwlch cyn ymgynghori â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Byddwn ni'n hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o'n bwriad i gau ffordd yr A4061.

Pan fyddwn ni'n ystyried cau ffyrdd mynydd, byddwn ni'n cysylltu'n agos â'r gwasanaethau brys ac yn rhoi gwybod i Gyfoeth Naturiol Cymru, Swyddog y Wasg, Cyngor Rhondda Cynon Taf, fydd yn rhoi gwybod i'r cyfryngau ac i'r cyhoedd.

Ar adeg benodol, byddwn ni'n gosod rhwystrau ar draws y ffordd/ffyrdd, ac yn agor arwyddion dros dro. Cyn gynted ag y bydd y ffordd/ffyrdd ar gau, byddwn ni'n ei phatrolio/eu patrolio unwaith er mwyn sicrhau bod dim cerbydau yn sownd ar y mynydd.

## **11.7 CAU FFYRDD ERAILL**

Efallai bydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd a Thrafnidiaeth, y Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd neu'r Swyddog Wrth Gefn, yn penderfynu cau unrhyw ffordd fel y mae'n gweld yn addas, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â'r Heddlu. Bydd y broses yma'n cael ei thrafod gyda'r Rheolwr Traffig cyn ei gweithredu. Os bydd y ffordd sydd i'w chau yn croesi ffin awdurdod cyfagos, byddwn ni'n cadw mewn cysylltiad agos ag ef. Mae manylion y weithdrefn ar gyfer cau ffyrdd i'w gweld yn Atodiad XVI.

## **11.8 DEFNYDDIO CYFARPAR**

Byddwn ni'n anfon cerbydau graeanu rheng-flaen i'w defnyddio ar y rhwydwaith strategol a'r prif rwydwaith dosbarthu i aredig eira ac i raeau yn ôl yr angen. Bydd y camau gweithredu yma'n parhau nes bod y sefyllfa dan reolaeth.

Bydd peiriannau ail reng yn trin ffyrdd eraill yn unol â'r blaenoriaethau sydd wedi eu pennu os ydyn ni'n penderfynu nad oes eu hangen ar y rhwydwaith strategol a'r prif rwydwaith dosbarthu.

### **11.8.1 CYFARPAR WEDI'U HURIO**

Byddwn ni'n rhoi cyfarwyddiadau penodol i weithredwyr cyfarpar sy'n cael eu hurio. Byddwn ni'n dynodi un o weithwyr cyfrifol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gyfarwyddo'r gwaith, i gadw cofnod o'r oriau gwaith, ac i nodi unrhyw ddigwyddiadau sy'n codi. Rhaid peidio â defnyddio peiriannau heb oruchwyliaeth os byddan nhw'n rhai sydd wedi'u hurio.

## **11.9 STRYDOEDD Â MESURAU GOSTEGU TRAFFIG**

Rhaid cymryd gofal ychwanegol wrth aredig eira mewn ardaloedd gostegu traffig, er mwyn osgoi difrod i'r peiriannau ac i'r nodweddion gostegu traffig, a niwed i'r gweithwyr. Bydd y gweithwyr yn effro i'r peryglon yma ac i unrhyw rwystrau eraill ar hyd y ffyrdd.

### **11.10 MONITRO GWEITHREDOL**

Byddwn ni'n monitro gwaith gweithredol drwy ffurflenni adroddiad ar gamau gweithredu, dyfeisiau recordio electronig, a thrwy oruchwyllo gweithgareddau.

Byddwn ni'n anfon pob taflen camau gweithredu'r gwasanaeth gaeaf a phob ffurflen adrodd camau gweithredu sy'n cael eu dosbarthu y tu allan i oriau gwaith arferol at y Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd ar y diwrnod gwaith nesaf yn dilyn y camau gweithredu.

### **11.11 CADW A CHOFNODI COFNODION GWEITHREDOL**

Carfan Isadeiledd y Priffyrdd fydd yn cadw'r rhagolygon tywydd a'r cyfarwyddiadau i gyd. Bydd y Swyddog Wrth Gefn yn anfon copïau o'r rhagolygon tywydd ac o'r taflenni camau gweithredu sy'n cael eu dosbarthu y tu allan i oriau gwaith arferol at y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd ar y diwrnod gwaith arferol nesaf, er mwyn hwyluso monitro cyflawniad.

Bydd y Swyddog Wrth Gefn yn cofnodi unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r rhagolygon tywydd, neu â champau sydd eisoes wedi'u gweithredu yn nyddiadur y Swyddog Wrth Gefn. Bydd wedyn yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd a fydd yn cofnodi'r wybodaeth yng nghronfa ddata Camau Gweithredu'r Gaeaf. Bydd y camau yma'n cael eu hanfon trwy e-bost at aelodau'r rhestr ddosbarthu sydd i'w gweld yn Atodiad II. Ar ddiwedd y flwyddyn, bydd dyddiadur y Swyddog Wrth Gefn yn cael ei anfon ymlaen at y Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd.

Bydd y Swyddog Galw Allan yn cofnodi unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r gwasanaeth gaeaf yn nyddiaduron y Swyddogion Galw Allan. Ar ddiwedd y flwyddyn, bydd y dyddiaduron yma'n cael eu hanfon ymlaen at y Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd.

Bydd y gyrwyr yn llenwi ffurflenni adrodd camau gweithredu ar ôl cwblhau unrhyw gam gweithredu graeanu ymlaen llaw, a'u rhoi i'r goruchwylwyr.




Yn ystod oriau gwaith arferol, y Rheolwr Gwasanaeth Isadeiledd y Priffyrdd fydd yn cofnodi camau gweithredu ôl-drin. Y Swyddogion Wrth Gefn a'r Swyddogion Galw Allan fydd yn gwneud hyn y tu allan i oriau gwaith arferol.

## ATODIADAU

### Rhondda Cynon Taf Precautionary Salting Route 2022/23

- High Routes
- Full Network



**COVID-19 – Darpariaeth cynnal a chadw y gaeaf**

Mae COVID-19 wedi achosi, a bydd o bosibl yn achosi, aflonyddwch i gyflenwad gwasanaethau ar draws y mwyafrif o ddiwydiannau. Gan ei bod yn debygol byddwn ni'n wynebu cyfnodau clo bob hyn a hyn, a gyda nifer yr achosion yn cynyddu, bydd yr awdurdod yn cyflwyno mesurau a hyfforddiant ychwanegol i gwblhau ein rhwymedigaethau o safbwynt y gwasanaeth gaeaf mewn modd llwyddiannus.

**Rhaid i'r holl fesurau rheoli/gweithdrefnau gweithio diogel canlynol gael eu rhoi ar waith gan holl weithwyr ac is-gontractwyr y Cyngor er mwyn dileu/lleihau'r risg o ddal neu drosglwyddo COVID-19.**

- Pob gweithiwr/isgontractwr i llynu'n llwyr wrth ganllawiau cyfredol y llywodraeth mewn perthynas â COVID-19.
- Rhaid gwisgo menig bob amser. Rhaid golchi menig, neu eu newid, yn rheolaidd ac osgoi cyffwrdd y wyneb â'r menig.
- Rhaid golchi dwylo â sebon a dŵr cynnes am o leiaf 20 eiliad mor aml â phosib.
- Ble bo'n ymarferol, cadw o leiaf 2 fetr oddi wrth weithwyr eraill a'r cyhoedd.
- Yn ddelfrydol, dim ond un gweithredwr ddylai ddefnyddio peiriant ar y tro. Ble nad yw hynny'n bosibl, rhaid glanhau manau cyffwrdd mewn peiriannau symudol (handlenni drysau, lefelau gweithredu, ac ati) yn drylwyr â sebon a dŵr cynnes cyn/ar ôl i weithredwyr gwahanol ddefnyddio'r peiriannau.
- Rhaid glanhau manau cyffwrdd mewn faniau (e.e. handlenni drysau, yr olwyn) yn rheolaidd â hylif glanhau priodol.
- Dylai gyrwyr a gweithwyr llwytho dim ond cynnal sgwrs â'i gilydd pan fo wir angen. Cadw o leiaf 2 fetr wrth wirio bod y cerbyd wedi'i lwytho'n ddigonol.

Yn ogystal â'r mesurau yma, bydd yr awdurdod yn ystyried y canlynol yn ffordd o gynllunio ymlaen llaw petai cyfyngiadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno:

- Gyrwyr ychwanegol yn cael eu hyfforddi o feysydd gwasanaeth eraill.
- Contractwyr o bosibl yn cael eu hyfforddi i weithio yn absenoldeb ein staff mewnol.
- Tynnu cynorthwyr o lwybrau ychwanegol nes bod angen erydr eira.
- Byddai gyrwyr yn gweithio sifftiau gyda'r nos yn barhaol pe bai nifer y staff yn cwmpo oherwydd salwch neu am eu bod angen hunanynysu.
- Datblygu rhwydwaith taenu halen critigol wrth gefn pe bai'n amhosibl cynnig lefel arferol y gwasanaeth o ganlyniad i ddifffyg adnoddau. Byddai hyn dim ond yn cael ei roi ar waith yn dilyn cyhoeddi negeseuon i'r cyhoedd yn esbonio'r rhesymau dros hyn.

RHAID i unrhyw weithredwr neu is-gontractwr y Cyngor sy'n datblygu symptomau COVID-19, neu sy'n byw gyda rhywun neu sy wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sy'n datblygu symptomau COVID-19, roi gwybod i'w goruchwyliwr ar unwaith. Yna RHAID dilyn y camau canlynol:

- Rhaid iddo hunanynysu ar unwaith oddi wrth yr holl weithwyr eraill ac oddi wrth aelodau o'r cyhoedd.
- Rhaid iddo wisgo gorchudd wyneb a menig latecs i ddileu/lleihau'r risg o heintio unrhyw un arall.
- RHAID rhoi gwybod i'r Rheolwr Materion Adeiladu Priffyrdd am y mater cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yna weithredu'r camau dilynol priodol.

